| | |
|---|---|
| **Cyfarfod** | Pwyllgor Craffu Gofal |
| **Dyddiad** | 31/01/19 |
| **Teitl** | Pobl Ifanc sy'n gadael gofal y Cyngor |
| **Aelod Cabinet** | Cynghorydd Dilwyn Morgan |
| **Awdur** | Aled Gibbard – Uwch Reolwr Gweithredol (Adnoddau Gofal) |

## 1. Cefndir

Gofynnwyd i'r adran ddarparu gwybodaeth ar bobl ifanc sy'n gadael gofal y Cyngor. Yn benodol gofynnwyd am wybodaeth ynglŷn â chynnydd y Cyngor yn erbyn adroddiad Breuddwydion Cudd gan y Comisiynydd Plant, Y Cynllun Pan Fyddai'n Barod, cysylltiad gyda'r Panel Rhiant Corfforaethol, cyrhaeddiad plant mewn gofal a gwasanaethau allsirol yn Gymraeg.

## 2. Pobl Ifanc sy'n Gadael Gofal

Mae achosion pobl ifanc sy'n gadael gofal yn cael eu dal gan y Tîm Ol16. Ar ddiwedd Rhagfyr 2018 roedd 139 achos yn agored i'r tîm. Roedd 27 o'r rhain yn achosion pobl ifanc 16 ac 17 oedd sy'n derbyn gofal a chefnogaeth gan yr Adran. Roedd 28 peron ifanc 16 ac 17 oedd yn parhau i fod yn blant mewn gofal ac roedd 84 o bobl ifanc a oedd yn gymwys i dderbyn gwasanaeth ol-ofal.

## 3. Breuddwydion Cudd

Fe gyhoeddwyd adroddiad Breuddwydion Cudd gan y Comisiynydd Plant yn 2017 ac mae'r adroddiad yn gosod allan weledigaeth y Comisiynydd ar gyfer yr hyn y dylai bod awdurdodau lleol yn ei wneud i gefnogi pobl ifanc sy'n gadael gofal. Gweler isod prif bwyntiau'r Comisiynydd yn ei hadroddiad a'r hyn mae'r Cyngor yn ei wneud mewn ymateb i hynny:

**Cefnogaeth i bawb** -

**Dylai pob person ifanc dderbyn cefnogaeth hyd at 25 oed** - Mae'r Cyngor bellach wedi ymestyn cefnogaeth i bawb sy'n gadael gofal hyd at 25 oed. Yn flaenorol roedd y gefnogaeth yn gorffen pan oedd person ifanc yn cyrraedd 21 oed os nad oedd mewn addysg bellach/uwch. Mae gan bob person ifanc sy'n gymwys am wasanaeth gynghorydd personol.

**Dylai awdurdodau lleol a gofalwyr roi mwy o ffocws ar ddatblygu sgiliau annibyniaeth pobl ifanc** - mae hyfforddiant bellach yn cael ei gynnig ar y cyd gyda'r tîm maethu ar gyfer gofalwyr i'w cefnogi yn eu rôl o fod yn paratoi pobl ifanc tuag at annibyniaeth. Yn ogystal mae gan bob person ifanc gynllun llwybr ac mae adolygu'r cynllun ar y cyd gyda'r person ifanc yn gyfle I roi sylw at faterion penodol yn ymwneud a pharatoi a datblygu sgiliau annibyniaeth.

**Dylai adrannau weithio gyda'i gilydd** - mae gan yr adran drefniadau gweithio gyda'r adran dai, adran addysg, adran budd-dal tai a'r gwasanaeth ieuenctid o fewn y Cyngor. Tu allan i'r Cyngor mae trefniadau cyd-weithio effeithiol gyda Grŵp Llandrillo ac Adran Gwaith a Phensiynau.

Dylai awdurdodau lleol ystyried sefydlu fforymau neu grwpiau trafod ar gyfer ymadawyr gofal - Ers Ebrill 2018 sefydlwyd fforwm o bobl ifanc. Mae'r fforwm yn cael ei arwain gan un o'r gweithwyr yn y Tîm Ol16 ar y cyd gyda gweithiwr o'r tîm maethu. Er mwyn medru sefydlu trefniadau ymgysylltu effeithiol mae'r uned gyfathrebu gorfforaethol yn cynorthwyo. Maent wedi cyfarfod 3 gwaith bellach a bu i'r fforwm gymryd rhan yn yr ymgynghoriad cyhoeddus gan y Cyngor yn ddiweddar ar doriadau i'r gyllideb yn y dyfodol. Mae eu barn wedi bwydo mewn yn glir i ganlyniadau'r ymgynghoriad

hwnnw. Mi fydd y fforwm yn cyfarfod a Phennaeth yr Adran Blant yn ystod mis Chwefror a bydd y Pennaeth yn bwydo gwybodaeth yn ôl i'r Panel Rhiant Corfforaethol. Mae un o'r bobl ifanc hefyd yn aelod o'r Panel Rhiant Corfforaethol.

**Tai ac Incwm**

**Defnyddio Fframwaith Llety a Chymorth I ymadawyr gofal** – Mae bwriad I ail sefydlu grwp llety a chefnogaeth pobl ifanc erbyn 2019-20. Nid yw'r grwp wedi cyfarfod ers dros flwyddyn a bellach mae'r cynllun gweithredu angen ei ddiweddaru. Fel rhan o'r rhaglen waith mae protocol cydweithio gyda'r adran dai yn mynd I gael ei ddiweddaru erbyn diwedd Chwefror ac yn dilyn hynny fe drefnir cyfarfod o'r grwp.

**Gwybodaeth glir ynglŷn â'r arian a grantiau sydd ar gael wrth adael gofal** - mae gan yr adran bolisi cyllid sy'n amlinellu'r gefnogaeth ariannol sydd ar gael i bobl ifanc. Pan mae pobl ifanc yn troi'n 18 oed, eu lle mae eu hamgylchiadau'n newid, gall Swyddog Adnoddau'r Tîm Ôl 16 ymweld â hwy er mwyn trafod, rhannu gwybodaeth ac esbonio'r gefnogaeth sydd ar gael iddynt.

**Beth allai cael ei wneud i sicrhau bod treth y Cyngor yn decach** - Fel nifer o awdurdodau lleol eraill yng Nghymru, mae'r Cyngor wedi eithrio pobl ifanc sy'n gadael gofal rhag talu Treth Cyngor hyd nes eu bod yn 25 oed.

**Cyfleoedd hyfforddi a swyddi** - Mae'r Comisiynydd o'r farn y dylai'r awdurdod lleol fel rhiant corfforaethol ac fel cyflogwr fod yn medru cynnig cyfleoedd hyfforddi i bobl ifanc sy'n gadael gofal. Mae gwaith wedi ei gwblhau ar hyn drwy'r panel rhiant corfforaethol ac fel rhan o ddatblygu cynllun prentisiaeth y Cyngor y bwriad yw medru cynnig cyfleoedd hyfforddi i ymadawyr gofal drwy'r cynllun hwn.

Yn ogystal roedd y Comisiynnydd yn dymuno i bob awdurdod lleol ysgrifennu at bobl ifanc a oedd yn gymwys am wasanaeth. Gweler y llythyr atodol.

## 4. Cynllun Pan Fyddai'n Barod

Bu'r Cyngor yn rhan o'r rhaglen beilot ar gyfer y cynllun yma ers 2013-14. Daeth y cynllun yn statudol yn Ebrill 2016. Yn ystod cyfnod y rhaglen beilot (3 blynedd) fe fuodd 58% o'r bobl ifanc hynny oedd yn gymwys ar ei gyfer yn rhan o'r cynllun. Yn ystod 2018-19 mae'r 5 o bobl ifanc oedd yn gymwys wedi dod yn rhan o'r cynllun. Ar hyn o bryd mae 12 o bobl ifanc yn rhan o'r cynllun hwn.

Cyrhaeddiad Plant Mewn Gofal

Gweler isod canlyniadau TGAU plant mewn gofal dros y 5 mlynedd diwethaf:

| Mesur | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Nifer y plant sy'n gadael gofal 16+** | | | | | |
| Gwynedd | **12** | **9** | **16** | **16** | **9** |
| **% 16+ enillodd o leiaf 1 cymhwyster** | | | | | |
| Gwynedd | **91%** | **67%** | **82%** | **94%** | **78%** |
| **% 16+ enillodd o leiaf 5 A*-G TGAU** | | | | | |
| Gwynedd | **50%** | **67%** | **82%** | **53%** | **67%** |
| **% 16+ enillodd o leiaf 5 A*-C TGAU (Gan gynnwys Iaith a Mathemateg)** | | | | | |
| Gwynedd | **25%** | **67%** | **62%** | **20%** | **22%** |

O’r 84 sy’n derbyn gwasanaeth ol-ofal, mae 29 mewn gwaith neu hyfforddiant, 26 mewn addysg bellach neu addysg uwch a 29 o bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, gwaith neu hyfforddiant. Ar hyn o bryd mae 10 person ifanc yn y brifysgol.

## 5. Gwasanaethau allsirol yn y Gymraeg

Mae’r ddarpariaeth yn dibynnu ym mhle mae’r plentyn wedi ei leoli tu allan i’r sir. Ar gyfer y plant hynny sydd wedi eu lleoli mewn lleoliadau preswyl allsirol, mae’r mwyafrif o leoliadau yng ngogledd orllewin Lloegr. Nid yw’r gwasanarth are u cyfer yn y Gymraeg, ac mae eu lleoliadau wedi ei penderfynu yn ôl eu hanghenion. Fodd bynnag, fel rhan o ddarpariaeth addysgol, gellir cynnig gwersi a gwaith drwy gyfrwng y Gymraeg, gydag esiamplau o wersi yn cael eu darparu drwy Skype mewn rhai achosion. Mae mwyafrif y lleoliadau maethu sydd tu allan i’r sir yng ngogledd Cymru (y rhan fwyaf ar Ynys Môn, Yng Nghonwy neu Sir Ddinbych). Mae darpariaeth addysg trwy gyfrwng ar gael yn yr achosion hynny yn unol â pholisi’r awdurdod addysg leol.